

Cynghorau Cymuned a Thref

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau

Enw'r Cyngor Tref neu Gymuned:	Cyngor Cymuned Cwm-Rhu
Math o ddewis (Grŵp 1,2, neu 3 ar gyfer amcan CGAN)	2
Cyflwyniad a'r Cyd-destun	
Mae Cwm Rhu yn gyngor cymuned o amgylch trefi sy'n cwmpasu tair ardal ward gyda 1,970 o drigolion. Ein praesept ar gyfer 2024/2025 oedd £76,500. Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Cwm-Rhu 12 Cynghorydd ac mae'n cyflogi Clerc llawn amser, Tirmon a gofalwr. Mae Cyngor Cwm-Rhu yn rheoli maes/cofeb pentref Pwll Du, parc Sant Jude sydd â chae pêl-droed a man chwarae, yn ogystal ag amryw o fannau gwyrdd bach o amgylch y dref. Rydym yn berchen ar ac yn rheoli neuadd gymunedol Cwm-Rhu, dau loches bysiau, 3 dysgl blanhigion ac yn arddangos nifer o fasgedi crog o fis Ebrill i fis Hydref. Mae Cwm-Rhu yn dref fach tua 20 milltir o'r arfordir ac mae ganddi hanes o gloddio plwm a chwareli llechi. Mae gennym heneb gofrestredig sef maen hir o'r enw Maen Idris sydd â chysylltiadau â derwyddon, mythau a chwedlau. Rydym yn cynnal carnifal haf bob mis Gorffennaf a phob mis Hydref rydym yn cynnal cystadleuaeth bwyta afalau hynaf y byd, sy'n denu llawer o ymwelwyr. Rydym yn ffodus i fod o fewn AHNE Tirweddau Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ac mae gan y dref boblogaeth fawr o Wenoliaid Du a chynefin Ffridd prin sy'n rhan o SoDdGA Penrhys.	



Amcan CGAN	Amcan Bioamrywiaeth	Camau arfaethedig	Amserlen	Monitro gan:
1	- cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	• Byddwn yn ychwanegu adran ar ein gwefan i gynnwys gwybodaeth am faterion cyffredinol yn ymwneud â'r hinsawdd a bioamrywiaeth. • Cysylltu â staff Tirweddau Cenedlaethol i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi/gwirfoddoli. • Bydd y wefan a'r cylchlythyr yn cael eu diweddarau i gynnwys crynodeb misol o'r rhywogaethau a welwyd yn y dref. • Bydd arwyddion newydd 'Ar eu Cyfer Nhw' yn cael eu gosod mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl yn cerdded lle rydym wedi newid arferion torri gwair i leihau'r cyfnodau rhwng torri gwair. Byddwn yn gwneud cais i ULIC am yr arwyddion sydd eu hangen. • Planhigion stryd – Cyflwynir cynllun plannu newydd i ddisodli'r planhigion blynyddol presennol, gyda phlanhigion mwy gwydn a brodorol sy'n gyfeillgar i wenyn peillio ac yn fwy abl i wrthsefyll sychder. Ceisir cyngor ar blanhigion addas a chyllid posibl gan ULIC. • Ystyried cael gwared ar y basgedi crog neu eu newid am rywbeth mwy cynaliadwy sy'n fwy addas ar gyfer cyfnodau sychder sy'n dod yn amlach.	Chwefror 2026 Erbyn Haf 2026 Dechrau Ebrill 2026 Gwanwyn/Haf 2026 Gwanwyn 2026 Gwanwyn 2026	Clerc Clerc Cynghorwyr Clerc / Pwyllgor bioamrywiaeth Gweithgor/is- bwyllgor Gweithgor/is- bwyllgor



	-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	• Byddwn yn ychwanegu adran ar ein gwefan i gynnwys gwybodaeth am faterion cyffredinol yn ymwneud â'r hinsawdd a bioamrywiaeth. • Cysylltu â staff Tirweddau Cenedlaethol i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi/gwirfoddoli. • Bydd y wefan a'r cylchlythyr yn cael eu diweddarau i gynnwys crynodeb misol o'r rhywogaethau a welwyd yn y dref. • Bydd arwyddion newydd 'Ar eu Cyfer Nhw' yn cael eu gosod mewn ardaloedd lle mae llawer o bobl yn cerdded lle rydym wedi newid arferion torri gwair i leihau'r cyfnodau rhwng torri gwair. Byddwn yn gwneud cais i ULIC am yr arwyddion sydd eu hangen. • Planhigion stryd – Cyflwynir cynllun plannu newydd i ddisodli'r planhigion blynyddol presennol, gyda phlanhigion mwy gwydn a brodorol sy'n gyfeillgar i wenyn peillio ac yn fwy abl i wrthsefyll sychder. Ceisir cyngor ar blanhigion addas a chyllid posibl gan ULIC. • Ystyried cael gwared ar y basgedi crog neu eu newid am rywbeth mwy cynaliadwy sy'n fwy addas ar gyfer cyfnodau sychder sy'n dod yn amlach.	Chwefror 2026 Erbyn Haf 2026 Dechrau Ebrill 2026 Gwanwyn/Haf 2026 Gwanwyn 2026 Gwanwyn 2026	Clerc Clerc Cynghorwyr Clerc / Pwyllgor bioamrywiaeth Gweithgor/is- bwyllgor Gweithgor/is- bwyllgor
--	---	--	---	---



2	-diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd	• Byddwn yn ceisio cyngor gan dîm Tirweddau Cenedlaethol ULIC, a phartneriaeth Natur Leol ynghylch pa rywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth Adran 7 sy'n bresennol yn yr ardal. • Byddwn yn cyflwyno ardaloedd torri a chasglu i greu ardaloedd dolydd ar ein glaswelltir amwynder. Bydd llwybrau'n cael eu torri drwy'r ardaloedd hyn i greu llwybr natur deniadol. Bydd yr ardaloedd hyn yn gweithredu fel coridorau natur. • Ein nod yw creu grŵp / mecanwaith gwirfoddol ar gyfer cofnodi rhywogaethau yn y parc fel y gall pobl anfon atom yr hyn maen nhw'n ei weld. Ein nod fydd cynnal gweithgareddau BioBlitz rheolaidd gydag arbenigwyr lleol i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau a chynefinoedd lleol. • Gwneud cysylltiadau â Thirweddau Cenedlaethol, a sefydliadau bywyd gwyllt lleol fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt i hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y gymuned ac ar ei chyfer. • Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddarau a gwella ein cynllun rheoli parc. • Byddwn yn gofyn i'n Cyngor Sir lleol roi'r gorau i chwistrellu chwynladdwyr ac ymchwilio i ddulliau amgen o gael gwared â llystyfiant diangen oddi ar y palmant a'r ymylon ffordd.	Mai 2026 Ebrill 2026 Mai/Mehefin 2027 Mai 2026 Hydref 2026 Erbyn Ionawr 2027	Pwyllgor bioamrywiaeth Clerc/Tirmon Pwyllgor bioamrywiaeth Pwyllgor bioamrywiaeth Staff y tiroedd Cynghorydd Sir a phwyllgor Bioamrywiaeth
---	---	--	--	--

		Bydd y pwyllgor bioamrywiaeth yn ystyried syniadau fel cynllun 'Mabwysiadu stryd' i helpu i leihau'r angen am blaladdwyr ac ymyriadau diangen.	Mehefin 2026	Cadeirydd y Pwyllgor
3	- adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	- Byddwn yn cyfeirio at y '5 colofn Adfer Natur' yng Nghanllaw Gweithredu Adfer Natur ULIC i gynllunio i ddarparu cynefinoedd a choridoriau iach ar gyfer rhywogaethau allweddol a nodwyd.  <i>Creu a gwarchod cynefinoedd a darparu porthiant</i> - Ym mharc St Jude ac ar ymylon y glaswellt yr ydym yn eu rheoli, bydd y cyngor yn creu cynefinoedd newydd trwy newidiadau i dorri'r gwair, gan ddarparu mwy o	Haf 2026 ymlaen Ebrill 2026 ymlaen	Pwyllgor bioamrywiaeth a gwirfoddolwyr Pwyllgor bioamrywiaeth yn asesu newidiadau.



		borthiant i beillwyr, a chynefin i bryfed, adar a mamaliaid bach. • Lle mae amrywiaeth rhywogaethau planhigion yn isel, byddwn yn ceisio cyngor gan ULIC ac yn ystyried ychwanegu hadau a phlanhigion plygio gan ddefnyddio cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur trwy ULIC neu LNP. • Byddwn yn plannu coeden dderwen newydd fel digwyddiad dathlu i nodi 65 mlynedd ers sefydlu'r Cyngor. Bydd hon yn cael ei phlannu yn dilyn cyngor a chyllid gan ULIC. • <i>Creu cysylltiadau</i> - Byddwn yn plannu coed gwrychoedd brodorol ac yn llenwi bylchau mewn gwrychoedd presennol o amgylch y parc. Cais i ULIC am y pecyn bioamrywiaeth gwrychoedd neu gyllid tebyg. Bydd y gwrych hwn a adferwyd yn cynyddu cysylltiadau ar gyfer ein rhywogaethau targed a bywyd gwyllt arall. • Bydd y cynllun rheoli gwrychoedd yn dilyn cyngor arfer gorau gan Swyddogion Bioamrywiaeth ULIC / LNP / Sirol ac ati. • <i>Darparu dŵr</i> - Byddwn yn asesu a allem osod pwll newydd yn y parc drwy geisio cyngor gan ULIC, LNP ac arbenigwyr lleol. • Asesu hyfywedd / cost gosod toeau gwyrdd ar y ddau loches bysiau i'w cynnwys yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 27/28 neu drwy gyllid.	Hydref 2026 Gaeaf 2027 Gaeaf 2026 Gwanwyn 2027 Hydref/Gaeaf 2027 Gwanwyn 2027	Pwyllgor bioamrywiaeth a thirmon Clerc / Pwyllgorau Pwyllgor bioamrywiaeth, tirmon a gwirfoddolwyr. Tirmon Tirmon/Clerc Clerc
--	--	---	---	---



		Mae'r Cyngor yn anelu at osod 20 o flychau gwennol duon ar dir cyhoeddus a phreifat. Bydd cyngor ar ddewis y lleoliad gorau posibl yn cael ei geisio gan ULIC, yr RSPB, a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.	Gaeaf 2027	Pwyllgor bioamrywiaeth a gwirfoddolwyr.
4	- mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	• Bydd aelodau'r cyngor yn neilltuo amser i ddysgu am y rhywogaethau estron goresgynnol mwyaf cyffredin ac yn gwirio ein tiroedd os ydyn nhw'n bresennol (h.y. Clymog Japan a'r Ffromlys Chwarennog) ac yn ceisio cyngor a hyfforddiant lle bo angen. • Bydd unrhyw rywogaethau estron yn cael eu cofnodi a bydd yr awdurdodau priodol yn cael eu hysbysu os yw'n berthnasol. • Bydd creu pwll neu ardal wlyb/gorsiog yn y parc yn darparu ateb sy'n seiliedig ar natur i'r problemau draenio ar y cae pêl-droed. • Gallai gosod y to gwyrdd ar y 3 lloches bysiau gynyddu cadw dŵr, darparu porthiant a dŵr i beillwyr, adar a phryfed a darparu oeri trefol ac atafaelu carbon. • Dileu defnydd plaladdwyr ar dir sy'n eiddo i/a reolir gan y Cyngor Cymuned. Gofyn i'r Cyngor Sir roi'r gorau i chwistrellu.	Gwanwyn/Haf 2026 Parhaus Gaeaf 2027 Gwanwyn 2027 Erbyn diwedd 2026	Clerc Clerc Tirmon a rhanddeiliaid y Parc Cyngor Llawn a Chynghorydd Sir



		<i>Lledaenu'r gair</i> – Rhannu gwybodaeth am effeithiau negyddol chwynladdwyr a phlaladdwyr gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefan, cylchlythyr ac arwain trwy esiampl.	Yn ystod 2026	Pwyllgor bioamrywiaeth a gwirfoddolwyr
5	- defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	- Hwyluso creu grŵp gwirfoddol i gofnodi rhywogaethau a welir yn y parc a'r ardal ehangach gan ddefnyddio ap LERC. - Cyhoeddi'r cofnodion ar ein gwefan, i greu mwy o ddiddordeb a chyfranogiad. - Cynnal cyfathrebu â thîm Bioamrywiaeth Tirweddau Cenedlaethol ULIC a'r LNP ynghylch cynnydd ar y cynllun hwn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned drwy'r cyfryngau. - Bydd cyfle i aelodau'r cyngor fynychu cyrsiau hyfforddi a gweminarau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Bydd cyfleoedd i grŵp gwirfoddol fynychu digwyddiadau hyfforddi am ddim gyda'r Tirweddau Cenedlaethol/LNP	Gwanwyn/ Haf bob blwyddyn Gwanwyn 2026 – yn parhau. Parhaus Parhaus Pan fo'n berthnasol	Clerc a phwyllgor bioamrywiaeth Clerc Clerc Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Clerc
6	-cefnogi capasiti a/neu sefydliadau eraill	- Creu a chynnal cysylltiadau a llinellau cyfathrebu da gyda Thirweddau Cenedlaethol, LNP ac ULIC - Bydd y Cyngor yn cefnogi pwyllgor Cwm-Rhu yn ei Blodau i gynnig categori gwobr ar gyfer yr ardd sydd fwyaf cyfeillgar i fywyd gwyllt. - Bydd y Cyngor yn diweddarau'r ddogfen hon yn barhaus, a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.	Gwanwyn 2026. Gaeaf/Gwanwyn 2026 Yn flynyddol	Clerc/Pwyllgor Bioamrywiaeth Cyngor Llawn



		Bydd cynnydd y cynllun hwn yn cael ei adrodd yn llawn yn Adroddiad Adran 6 y Cyngor. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar ein gwefan erbyn diwedd 2028 gan gydymffurfio â dyletswydd cydnerthedd Adran 6 - Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.	Erbyn diwedd 2028	Cyngor Llawn drwy'r pwyllgor bioamrywiaeth
--	--	---	-------------------	--



Adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth		Dyddiad yr adolygiad:	Chwefror 2027
Beth sydd wedi gweithio'n dda?	Mae ardaloedd dolydd mewn parciau ac ar ymylon ffyrdd wedi bod yn llwyddiannus gyda 15 rhywogaeth wahanol wedi'u cofnodi mewn rhai ardaloedd ac ymylon ffyrdd. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau da gyda'r tîm Tirweddau Cenedlaethol gyda'r ceidwad lleol yn darparu hyfforddiant ar blannu a chynnal a chadw gwrychoedd. Mae gan y pwyllgor bioamrywiaeth 5 Cynghorydd, ein Tirmon a 3 aelod o'r cyhoedd sy'n mynychu ac yn cyfrannu'n rheolaidd. Mae gan y cylchlythyr a'r wefan dudalen fioamrywiaeth bwrpasol bellach. Cawsom becyn hadau blodau gwyllt a phlanhigion plyg gan Un Llais Cymru, a defnyddiwyd y rhain i lenwi'r dysglau plannu newydd. Roedd y planwyr yn edrych yn wych, a chawsom lawer o adborth cadarnhaol yn ystod yr haf.		
Beth am y rhwystrau?	Newidiadau i dorri gwair – nifer fach o gwynion gan y cyhoedd, gwybodaeth o 'Ar eu Cyfer Nhw' wedi'i darparu a bydd y Cyngor yn cadw'r cynlluniau i osod arwyddion. Mae diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth o fewn y Cyngor wedi arafu cynnydd wrth wneud penderfyniadau. Mae cyfathrebu rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir wedi golygu bod chwistrellu plaladdwyr wedi parhau yn 2026. Mae argaeledd cyllid wedi arafu cynnydd gyda rhai grantiau â chyfnodau byr i wneud cais amdanynt.		
Beth fyddwch yn ei newid?	Bydd y pwyllgor bioamrywiaeth yn mynychu mwy o hyfforddiant a gweminarau ac yn mynd ati i geisio cyngor ac ymgynghoriad arbenigol. Mae pedwar Cynghorydd wedi archebu lle ar fodiwlau Hyfforddiant Bioamrywiaeth ULIC 25-27 ym mis Chwefror 2027. Bydd arwyddion Ar Eu Cyfer Nhw yn cael eu gosod a bydd llwybrau ac ymylon yn cael eu torri'n aml i leihau cwynion. Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn am roi'r gorau i chwistrellu plaladdwyr.		



	Byddwn yn cynnal ymgynghoriad Cymunedol ar newidiadau pellach ac yn cyfleu nodau ac amcanion unrhyw newidiadau yn glir.
--	---

Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Ionawr 2028
Cymeradwywyd gan y Cyngor ar:	15 Mawrth 2027



Grŵp	Disgrifiad o sefydliad mewn perthynas â bioamrywiaeth	Camau Gweithredu Sylfaenol	Enghreifftiau	Amcanion NRAP ar gyfer Adrodd ar gamau Gweithredu (Gweler Templedi)
	Sefydliadau:			
1	- sy'n berchen neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig - ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.	Camau sy'n gysylltiedig a rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.	Comisynau, DVLA	Amcanion NRAP: 1, 4, a 6
2	- sy'n berchen yn meddiannu neu'n rheoli eu adeiladau a'u tir eu hunain, - y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig a bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu - sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir.	Fel Grŵp 1 uchod A rheoli tir, rhaeadru meini prawf cyllido, darparu addysg a hyfforddiant	Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgolion, Chwaraeon Cymru	Amcanion NRAP: 1,4, a 6 <i>fel uchod +</i> Amcanion NRAP: 2, 3, a 5 <i>yn ymwneud â thir y sefydliad</i>
3	sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tir eu hunain, waeth a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio.	Fel Grŵpiau 1 a 2 uchod A rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnheredd ecosystemau.	Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, CNC, Llywodraeth Cymru	Holl amcanion NRAP: 1,2,3,4,5 a 6

Mae **Cyllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP)** yn gosod chwe amcan ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain gweithredoedd i gydymffurfio â dyletswydd adran 6:

Y **6 amcan** i gynnal a gwella bioamrywiaeth yw:

- Amcan 1:

Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel
- Amcan 2:

Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y'u rheolir
- Amcan 3:

Cynyddu cydnheredd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd
- Amcan 4:

Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5:

Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro
- Amcan 6:

Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi